## Swydd ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd:** | **Swyddog Cyfathrebu a Chynnwys Cymraeg** |
| **Oriau a Lleoliad:** | 35 awr yr wythnos<br><br>Opsiwn hyblyg o weithio o gartref neu yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Bydd angen teithio i Gaerdydd yn achlysurol. |
| **Graddfa Gyflog:** | Graddfa Swyddog Datblygu ProMo (£26,708 - £30,327) |
| **Math o Gytundeb:** | Parhaol (yn amodol ar gyllid) |
| **Cyfnod Prawf:** | 4 mis |
| **Yn Atebol i:** | Rheolwr Cynnwys a'r Iaith Gymraeg |

**Gwyliau a Buddiannau:**

- Wythnos waith hyd at 35-awr
- Hyd at 25 diwrnod o wyliau/flwyddyn, yn cynyddu i 30 diwrnod (yn ddibynnol ar hyd gwasanaeth)
- Absenoldeb salwch â thâl - hyd at 3 mis (yn ddibynnol ar hyd gwasanaeth)
- Gwyliau Banc statudol yn ogystal ag 1 diwrnod ar gyfer Noswyl Nadolig neu Ben-blwydd
- Gweithio hybrid (yn ddibynnol ar rôl y swydd)
- Hyd at 4 wythnos o weithio i ffwrdd o dy leoliad gwaith yng Nghymru
- Cynllun pensiwn - cyfraniad cyflogwr o hyd at 6%
- Cynllun beicio i'r gwaith (www.cyclescheme.co.uk)
- Yswiriant marwolaeth mewn swydd
- Lwfans Rhyngrwyd/Ffôn Symudol misol £30
- Lwfans Cyfarfodydd/Digwyddiadau £50
- Apwyntiadau Meddygol â Thâl
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr

## Gwybodaeth am ProMo Cymru

**Ein Gweledigaeth:** Newid creadigol er budd cymdeithasol
**Ein Cenhadaeth**: Gwireddu newid wrth Gyfathrebu, Cynllunio, Adeiladu gyda phobl ifanc a chymunedau

## Ein ffordd o weithio

Mae ProMo Cymru yn gweithio ar y cyd i greu cysylltiadau rhwng pobl a gwasanaethau gan ddefnyddio creadigrwydd a thechnoleg ddigidol. Yn cefnogi'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus i ddychmygu, profi a chreu gwasanaethau gwell.

Rydym yn gweithio â chymunedau trwy ddigidol a chynhyrchu cyfryngau, cyfathrebu, eiriolaeth, ac ymgysylltiad diwylliannol. Mae dros 25 mlynedd o gyflawni gwybodaeth ieuenctid digidol yn llywio ein gwaith. Mae'r wybodaeth yma yn cael ei rannu drwy hyfforddiant ac ymgynghoriaeth, gan sefydlu partneriaethau hirdymor er budd pobl a gwasanaethau.

Mae ProMo yn elusen gofrestredig ac yn fenter gymdeithasol, rydym yn buddsoddi ein helw yn ôl i'n prosiectau cymunedol.

**Darganfod mwy am ProMo Cymru ar** www.promo.cymru

## Prif bwrpas y swydd

Mae ein Tîm Cynnwys yn chwilio am **Swyddog Cyfathrebu a Chynnwys Cymraeg** creadigol, trefnus ac sy'n gallu ysgogi ei hun. Mae'r person yma yn caru ysgrifennu cynnwys dwyieithog o ansawdd uchel ac yn mwynhau gweithio ar sawl prosiect mewn amgylchedd cyflym.

Mae ein tîm yn creu amrywiaeth o gynnwys ar gyfer sawl prosiect sydd yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol, blogiau, sgriptiau, ymgyrchoedd, a deunyddiau hyrwyddol. Mae llawer o'n gwaith yn cynnwys cyd-gynhyrchu cynnwys gyda chleientiaid a'n cynulleidfaoedd targed (fel pobl ifanc).

**I weld y math o waith sy'n cael ei gyflawni:** www.promo.cymru/cy/projects/

## Prif ddyletswyddau

- **Creu Cynnwys:** Cynllunio a chynhyrchu cynnwys dwyieithog deniadol ar gyfer lwyfannau amrywiol, gan gynnwys erthyglau i wefannau, postiadau blog, diweddariadau cyfryngau cymdeithasol, fideos, a chylchlythyrau e-bost.
- **Safonau Golygyddol:** Golygu, prawf ddarllen, ac ymchwilio cynnwys, gan sicrhau bod yr holl allbwn yn bodloni canllawiau cytunedig, pecynnau brand, a pholisïau perthnasol.

- **Cyfieithu:** Darparu cyfieithiad cywir o ansawdd uchel o gynnwys o'r Saesneg i'r Gymraeg ac i'r gwrthwyneb.
- **Cyd-gynhyrchu:** Cydweithio a chyd-gynhyrchu cynnwys gyda phobl ifanc, cydweithwyr, gwerthuswyr prosiect, partneriaid, a rhanddeiliaid.
- **Marchnata a Strategaeth:** Datblygu strategaethau marchnata i ehangu cyrhaeddiad ac ymgysylltiad cynnwys ar draws sianeli mewnol ac allanol (cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, ac ati.)
- **Cydlynu Prosiectau:** Arwain a chyflwyno prosiectau ac ymgyrchoedd cynnwys ar yr un pryd, gan sicrhau eu bod yn cyflawni eu hamcanion i safon uchel, ar amser, ac o fewn cyllideb.
- **Monitro a Gwerthuso:** Monitro perfformiad prosiect, casglu data a mewnwelediadau i fireinio strategaethau cynnwys y dyfodol.
- **Rheoli Perthnasau:** Meithrin a chynnal perthnasau cryf gyda chleientiaid a rhanddeiliaid ar draws pob prosiect.
- **Hyfforddiant a Chymorth:** Cefnogi a chyflwyno hyfforddiant ar ddatblygu cynnwys ac adnoddau cyfryngau digidol (e.e. Canva, WordPress, Meta Business Suite, a chanllawiau arddull).
- **Twf Busnes:** Cyfrannu i ddatblygu busnes newydd, ceisiadau am gyllid, a chynlluniau cynaliadwyedd lle bo'n briodol.

*Bydd disgwyl i'r person yn y swydd gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sydd yn ofynnol i sicrhau bod prosiectau yn cyflawni ei gyraeddiadau a'i amcanion yn llwyddiannus.*

## Amdanat ti

**Byddem wrth ein bodd yn clywed gen ti os:**

- **Sgiliau Iaith:** Rwyt ti'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda sgiliau ysgrifennu a siarad Cymraeg eithriadol ac yn hyderus wrth gyfieithu a chreu cynnwys gwreiddiol yn y ddwy iaith
- **Cefndir:** Mae gen ti gefndir neu gymhwyster mewn Cyfathrebu, Newyddiaduraeth, Cyfryngau, neu faes creadigol perthnasol.
- **Profiad:** Mae gen ti brofiad profedig o ysgrifennu cynnwys cymhellol, creadigol, sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa ar draws wahanol lwyfannau.
- **Meddylfryd Cydweithredol:** Rwyt ti'n mwynhau gweithio yn cyd-greu cynnwys yn uniongyrchol â chydweithwyr, cymunedau, pobl ifanc, a chleientiaid allanol.
- **Agwedd:** Rwyt ti'n ddibynadwy, yn gyfrifol, ac â meddylfryd positif 'gallaf wneud hyn'.
- **Addasrwydd:** Mae gen ti sgiliau rheoli amser gwych ac rwyt ti'n gyffrous i weithio mewn amgylchedd prysur le nad oes dau ddiwrnod yr un fath.
- **Twf:** Rwyt ti wedi ymrwymo i ddysgu parhaus ac yn awyddus i ddatblygu dy yrfa o fewn un o'r mentrau cymdeithasol sydd yn tyfu cyflymaf yng Nghymru.

**Sut i wneud cais:** E-bostia dy ffurflen gais wedi'i lenwi i **pobl@promo.cymru**

**Dyddiad cau:** Dydd Gwener, 24 Gorffennaf 2026, 5yh

**Cyfweliadau:** Dydd Mercher, 12 Awst a dydd Iau, 13 Awst 2026 mewn person yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. (Bydd gweithgaredd cyfieithu yn cael ei osod fel rhan o'r broses cyfweld)

**Manylion pellach am ProMo Cymru ar** www.promo.cymru

## Manyleb a phrofiad person:

| Gofyniad | Hanfodol | Dymunol | Sut mae adnabod/asesu |
|---|---|---|---|
| **Addysg/ Cymwysterau:** | Cymhwyster cydnabyddedig mewn pwnc perthnasol neu 3 mlynedd o brofiad proffesiynol cyfatebol | Cymhwyster neu radd mewn Cyfathrebu, Newyddiaduraeth, Cyfryngau neu faes creadigol perthnasol. | Ffurflen gais |
| **Profiad:** | Rhugl yn siarad ac yn ysgrifennu Cymraeg a Saesneg.<br><br>Profiad profedig mewn rôl sy'n canolbwyntio ar greu cynnwys, ysgrifennu copi, neu gyfathrebu.<br><br>Profiad yn cynhyrchu cynnwys creadigol ar gyfer llwyfannau digidol amrywiol (gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, blogiau, cylchlythyrau).<br><br>Profiad marchnata digidol. | Profiad yn gweithio gyda phobl ifanc a/neu grwpiau cymunedol i greu cynnwys ar y cyd.<br><br>Profiad yn darparu hyfforddiant a chymorth.<br><br>Profiad yn rheoli ac yn cyflawni nifer o brosiectau neu ymgyrchoedd cynnwys ar yr un pryd. | Ffurflen gais a chyfweliad |
| **Sgiliau/ Gwybodaeth** | Gramadeg, sillafu, ac atalnodi ysgrifenedig rhagorol yn y Gymraeg, gyda'r gallu i gyfieithu cynnwys yn gywir i'r ddau gyfeiriad (Saesneg i Gymraeg ac i'r gwrthwyneb).<br><br>Sgiliau trefnu, cynllunio ac amldasgio cadarn | Ymwybyddiaeth o ddefnyddio systemau Rheoli Cynnwys (CMS e.e. WordPress) a phecynnau rheoli cyfryngau cymdeithasol (e.e. Meta Business Suite). | Ffurflen gais a chyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyda llygaid da am y manylion.<br><br>Dealltwriaeth gref o sut i deilwra tôn llais ac arddull cynnwys ar gyfer wahanol gynulleidfaoedd a llwyfannau.<br><br>Yn sylwi ar y manylion bach, yn gallu rheoli dy amser a gyda sgiliau cynllunio gwych.<br><br>Y gallu i weithio'n annibynnol ac ar liwt dy hun, yn ogystal â bod yn rhan o dîm.<br><br>Lefel uchel o lythrennedd TG. | Gwybodaeth ymarferol o adnoddau dylunio creadigol (e.e. Canva)<br><br>Ymwybyddiaeth o strategaethau marchnata digidol, egwyddorion SEO, a mewnwelediadau/ dadansoddeg cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Ymwybyddiaeth o sector statudol/ gwirfoddol Cymru. | |
| **Nodweddion personol:** | Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol gwych ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br><br>Yn angerddol am ddefnyddio cynnwys, cyfryngau a llwyfannau digidol i ymgysylltu â phobl ifanc a chymunedau Cymru.<br><br>Yn frwdfrydig ac yn dysgu'n sydyn.<br><br>Gallu gweithio'n annibynnol gyda sgiliau rheoli amser gwych.<br><br>Yn hyblyg ac yn gallu addasu i anghenion amgylchedd prysur. | | Cyfweliad |
| **Gofynion eraill:** | Wedi ymrwymo i weithio i, a chynnal gwerthoedd, ethos a diwylliant ProMo Cymru. | Trwydded yrru gyda thrafnidiaeth dy hun. | Ffurflen gais a chyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Parodrwydd i deithio ar draws Cymru pan fo angen (gan gynnwys teithio achlysurol i'r swyddfa yng Nghaerdydd).<br><br>Parodrwydd i weithio oriau hyblyg yn unol ag angen busnes.<br><br>Bydd angen gwiriad DBS uwch ar gyfer y swydd yma. | | |

Gall y disgrifiad swydd yma gael ei adolygu a'i newid i gynnwys dyletswyddau a chyfrifoldebau a bennir mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir iddo fod yn anhyblyg, ond dylid ei ystyried fel darparu fframwaith y mae'r unigolyn yn gweithio iddo.

### DIWEDD ###